Defnyddio gwaith gwirfoddol i gamu ymlaen yn y farchnad swyddi

Taflen waith 4

Astudiaeth achos

Roedd Jack wedi bod yn gweithio i elusen a oedd yn codi arian i'r hosbis leol. Roedd yn mwynhau'r gwaith, roedd wedi gwneud llawer o ffrindiau newydd ac nid oedd am adael y sefydliad.

Serch hynny, nid oedd yn teimlo fod ei amser yn siop yr elusen yn ddigon i ddatblygu'r holl sgiliau roedd eu hangen arno i ddatblygu ei yrfa. Roedd hefyd yn teimlo y gallai wneud llawer mwy ac y byddai'n mwynhau'r her o wthio ei hun i roi cynnig ar brofiadau newydd (a braidd yn frawychus).

Gofynnodd am awgrymiadau gan ei gyd-wirfoddolwyr a'r cydgysylltydd rhanbarthol. Aeth hefyd i ymweld â'r hosbis a siaradodd ag aelodau o staff a chleifion er mwyn cael gwybod yn uniongyrchol pa welliannau yr hoffent eu gweld a sut yr hoffent godi eu proffil. Yn olaf, ymchwiliodd ar y we i weld beth roedd gwirfoddolwyr yn ei wneud gydag elusennau mwy.

Cofnododd yr holl wybodaeth hon, a'r hyn a gyflawnodd mewn gwirionedd, ar grid STARE, gan ddefnyddio'r 'geiriau gweithredu' o Daflen waith 6 yn Adran 6 o'r uned hon.

Sefyllfa	Yn gweithio mewn siop elusen ar gyfer hosbis, ond yn teimlo nad oedd defnydd digonol yn cael ei wneud ohonof ac y gellid gwneud mwy i *ddatblygu* fy sgiliau a'm profiad.
Tasg	Codi proffil yr hosbis yn y gymuned leol, *cynllunio* strategaeth o *roi gweithgareddau* newydd *ar waith* er mwyn fy *ymestyn* a'm herio, a *chynnwys* cymaint o bobl leol â phosibl.
Cam gweithredu	*Ymgynghorais* â'm cyd-wirfoddolwyr, staff yr hosbis a chleifion er mwyn *dadansoddi* beth roeddent am ei gael. *Ymchwiliais* i weithgareddau gwirfoddolwyr a oedd yn gweithio i elusennau eraill, *recordiais* rai o'r cleifion yn adrodd eu straeon eu hunain am yr hyn yr oedd yr hosbis yn ei olygu iddynt hwy, *darbwyllais* bapurau newydd lleol i gyhoeddi erthygl a llwyddais i *negodi* slot ar radio lleol er mwyn gallu darllen y straeon hyn ar goedd. Hefyd, *ailgynlluniais* y wefan a *chysylltais* â sefydliadau lleol fel y Clwb Rotari, y ddwy ysgol uwchradd a Sefydliad y Merched i roi *cyflwyniadau*.
Canlyniad	Cafwyd cynnydd o 40% yn yr arian a *godwyd*. Nododd prif nyrs yr hosbis fod cyfleusterau wedi gwella a bod cynnydd yn nifer y gwirfoddolwyr yn y siop ac ar gyfer cynnal casgliadau o ddrws i ddrws.
Gwerthusiad	Drwy ysgrifennu erthyglau i'r wasg, gwneud darllediad radio a rhoi cyflwyniadau i sefydliadau lleol, gwellodd fy hyder a'm sgiliau cyfathrebu, a llwyddais i ddangos fy mlaengaredd a'm gallu i gynllunio.

Ewch i'r dudalen nesaf am gopi gwag o'r grid STARE hwn i chi ei gwblhau.

Addaswyd o: Cyf_1: Using voluntary work to get ahead in the job marke
Hawlfraint wreiddiol (h) Y Brifysgol Agored 2010
Atgynhyrchwyd ar gyfer OpenLearn 2010 www.open.ac.uk/openlearn

Sefyllfa	
Tasg	
Cam gweithredu	
Canlyniad	
Gwerthusiad	